Dewin y bêl

(colli cyfle / gofalu am ein corff)

Am bum munud i un bnawn Gwener 25 Tachwedd 2005 bu farw un o sêr amlycaf y byd pêl-droed yn 59 oed. Wyth wythnos ynghynt bu'n rhaid iddo fynd i Ysbyty Cromwell yn Llundain yn dioddef o symptomau ffliw. Nid hwn oedd y tro cyntaf iddo fynd i'r ysbyty, roedd wedi bod yno droeon o'r blaen. Ond hwn oedd y tro olaf. Pan fu farw, meddai ei fab, Calum, "Nid yn unig rydw i wedi colli tad ond mi rydan ni i gyd wedi colli dyn arbennig iawn." Penderfynodd y teulu y byddai cyn-chwaraewr Manchester United a Gogledd Iwerddon yn cael ei gladdu wrth ochr ei fam, Ann, yn ei wlad enedigol.

Ym marn llawer, Best oedd y chwaraewr gorau erioed i droedio meysydd pêl-droed ynysoedd Prydain. Roedd ar y brig yn ystod chwedegau'r ganrif ddiwethaf pan oedd yn chwarae i Man. Utd gan sgorio 178 o goliau a hynny mewn 466 o gemau – sgoriodd chwe gôl mewn un gêm. Enillodd chwe chap a sgoriodd naw gôl dros ei wlad.

Pan ofynnwyd iddo unwaith sut roedd e wedi gwario'r arian mawr roedd wedi'i ennill fel chwaraewr ei ateb oedd, "Rwyf wedi'u gwario ar gwrw, merched a cheir cyflym. Rydw i wedi gwastraffu'r gweddill."

Yn ystod y dyddiau'n dilyn ei farwolaeth roedd y teyrngedau'n llifo. Yn ôl Bertie Ahern, Prif Weinidog Gweriniaeth Iwerddon, "Mae'n rhaid i ni gofio George am yr hyn yr oedd yn gallu'i wneud orau." Yn syml, roedd yn athrylith ar y maes pêl-droed. Canmoliaeth hefyd oedd yng ngeiriau ei gyd-chwaraewr yn nyddiau Man. Utd, Bobby Charlton, "Gwnaeth gyfraniad aruthrol i'r gêm gan gyfoethogi bywydau pob un a'i gwelodd yn chwarae. Mae byd pêl-droed wedi colli un o'r goreuon ac mi ydw innau wedi colli ffrind annwyl iawn. Roedd yn berson rhagorol."

Beth, felly, oedd cyfrinach George Best ar y maes pêl-droed? Pan oedd yn 15 oed, ac yntau'n chwarae mewn timau ieuenctid yng Ngogledd Iwerddon, y daeth i sylw un o sgowtiaid Man. Utd, "Rwyf wedi gweld athrylith heddiw," meddai Bob Bishop wrth Matt Busby, rheolwr Man. Utd ar y pryd.

Pan ymunodd â thîm Utd roedd yn fychan o daldra ac yn denau a llwydaidd ond roedd ganddo reolaeth arbennig ar y bêl a

doedd yn malio dim am chwaraewyr oedd yn llawer mwy nag ef o ran corffolaeth. Er iddo redeg adref i Ogledd Iwerddon ddeuddydd ar ôl cyrraedd Manceinion roedd yn amlwg fod yna ddyfodol disglair i'r bachgen â'r gwallt du a oedd, ym marn llawer, yn ymdebygu i aelodau o'r Beatles. Yn ddwy ar bymtheg oed roedd yn aelod o garfan gyntaf tîm Utd ac yn cyd-chwarae â chwaraewyr fel Bobby Charlton a Dennis Law, fu'n ffrind oes iddo.

Asgellwr, asgellwr de i fod yn fanwl gywir, a'r rhif 7 ar ei gefn oedd ei safle yn y tîm a phan fyddai'r bêl wrth ei draed anodd iawn oedd ei stopio wedyn. Byddai'n driblo'i ffordd yn gelfydd heibio i'w wrthwynebwyr yn union fel dawnsiwr balet gan igam-ogamu ei ffordd tua'r gôl a gydag un trawiad byddai'r bêl yn gwingo yng nghefn y rhwyd.

Ar un achlysur, pan oedd chwaraewyr o wahanol dimau wedi'u gwahodd i ginio, gofynnodd Graham Williams, un o chwaraewyr West Brom, iddo. "Wnei di aros yn llonydd, Georg,e i mi gael gweld dy wyneb yn iawn." Safodd George ac edrych ym myw llygaid Graham, "Wyt ti'n gweld, George, fydda i byth yn gweld dy wyneb ar y cae dim ond dy gefn yn mynd fel milgi tua'r gôl."

Adnod: "Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, wedi newid y cwbl am arian, ymfudodd y mab ieuengaf i wlad bell." Luc 15:13

Gweddi: Pan fydd temtasiynau'n dod i'm rhan, bryd hynny, Arglwydd, aros yn f'ymyl. Amen.

Trafod:

- Trafodwch beth oedd gwendidau George Best. Tybed a oedd o'n rhy ifanc i wynebu'r cyfrifoldebau?
- A fyddech chi'n dweud fod alcoholiaeth yn broblem yn ein cymdeithas heddiw?